# Ysgol Bro Dyfrdwy

## Ymddygiad a disgyblu

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd y polisi yma gan y Corff Llywodraethol ar: | Dyddiad: |
| Adolygir: | Dyddiad: |
| Arwyddwyd gan Cadeirydd y Llywodraethwyr: | |

Ysgol Bro Dyfrdwy

**Ysgol Bro Dyfrdwy**

POLISI YMDDYGIAD A DISGYBLU

Mae'r Corff Llywodraethol yn ceisio creu amgylchedd yn yr ysgol sydd yn annog ac atgyfnerthu ymddygiad da. Hefyd, fe gydnabyddir bod cymdeithas yn disgwyl ymddygiad da fel canlyniad pwysig o'r broses addysgu.

**Nôd**

Creu awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol – gan greu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth.

**Amcanion.**

- Creu amgylchedd sy'n annog ac atgyfnerthu ymddygiad da.
- Diffinio safonau ymddygiad derbyniol.
- Annog cysondeb ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol.
- Hybu hunan-barch, hunanddisgyblaeth a chysylltiadau cadarnhaol.
- Sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth eang o ddisgwyliadau a strategaethau'r ysgol.
- Annog ymglymiad y cartref a'r ysgol yng ngweithrediad y polisi.
- Datblygu rheolau fydd yn creu cymuned drefnus y gellir dysgu'n effeithiol ynddo.
- Datblygu rheolau fydd yn creu cymuned y gellir ddysgu'n effeithiol ynddo. Cymuned sy'n seiliedig ar barch y naill at y llall lle mae gofal am amgylchedd yr ysgol yn ffactor bwysig.
- Datblygu cyfrifoldeb am eu gweithredodd eu hunain yn y disgyblion.

**Ethos Ysgol.**

Mae gan yr oedolion sy'n yr ysgol gyfrifoldeb pwysig i fodelu safonau ymddygiad uchel wrth ymdrin a'r plant a chyda'i gilydd, gan fod eu hesiampl hwy yn ddylanwad pwysig ar y plant. Mae gan holl staff Ysgol Bro Dyfrdwy ddisgwyliadau uchel o safonau ymddygiad gan y plant. Ceisia pob oedolyn gyflwyno modelau rôl cadarnhaol.

Fel oedolion dylwn anelu at:

- Greu hinsawdd gadarnhaol gyda disgwyliadau realistig.
- Bwysleisio pwysigrwydd gwerth yr unigolyn o fewn grwp.
- Hybu,drwy esiampl,gonestrwydd a chwrteisi.
- Ddarparu amgylchedd ddysgu ofalus ac effeithiol.

Ysgol Bro Dyfrdwy

- Annog cysylltiadau seiliedig ar garedigrwydd, parch a dealltwriaeth o anghenion eraill.
- Sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg heb ystyried oed,rhyw,hil,gallu ac anabledd;
- Dangos gwerthfawrogiad o ymdrechion a chyfraniadau pawb.

**Rheolau a threfniadau.**

Dylid sefydlu rheolau a threfniadau clir i'r plant.

Dylai rheolau a threfniadau:

- Gael eu cadw mor fyr a chlir a phosibl.
- Gael eu datgan yn gadarnhaol, gan ddweud wrth blant beth i'w wneud yn hytrach na beth i beidio a'i wneud.
- Annog pawb i gymryd rhan yn eu datblygiad.

**Rheolau aur yr ysgol – ATODIAD 1**

- **Byddwch yn ffrind da. Peidiwch a brifo neb.**
- **Byddwch yn ffeind a helpwch eich gilydd. Peidiwch a brifo teimladau eraill.**
- **Chwaraewch yn hapus gyda'ch gilydd. Peidiwch a difetha gemau plant eraill.**
- **Cadwch yr ysgol a'r dosbarthiadau'n daclus. Peidiwch a thaflu sbwriel a phethau ar y llawr.**
- **Gwrandwech ar oedolion, ac ar eich gilydd.Peidiwch a thorri ar draws.**
- **Dywedwch y gwir. Peidiwch a dweud celwydd.**
- **Chwaraewch yn ddiogel.Peidiwch a chwarae gemau peryglus.**
- **Cerddwch o amgylch yr ysgol. Peidiwch a rhedeg tu mewn i'r ysgol**
- **Gwrandewch wrth deithio mewn tacsi. Peidiwch â thynnu sylw'r tacsi.**

**Gwobrwyo.**

Mae'r pwyslais ar wobrwyuo i atgyfnerthu ymddygiad da, yn hytrach nac ar fethiannau. Y wobr mwyaf cyffredin yw canmoliaeth anffurfiol a ffurfiol i unigolion a grwpiau. Cyflwynir cydnabyddiaeth o'r gwobrau canlynol yn ystod gwasanaeth bore dydd Gwener drwy gyflwyno tystysgrif seren yr wythnos.

**Cosbau.**

Er fod gwobrwyo yn ganolog i annogaeth ymddygiad da, yn realisitig mae'n rhaid cael cosbau i danlinellu ymddygiad annerbyniol ac i amddiffyn cymuned

Ysgol Bro Dyfrdwy

ehangach yr ysgol. Gall cosbau amrywio o ei gyfeirio/chyfeirio at y Pennaeth, llythyrau i rieni ac, os daw hi i'r pen, gwaharddiad (yn dilyn canllawiau yr AALl.)

**Côd Ymddygiad Cyffredinol.**

- Disgwylir i ddisgyblion fod yn gwrtais a bonheddig bob amser ac i ddangos parch at staff a disgyblion eraill.
- Disgwylir i ddisgyblion ymddwyn yn synhwyrol a chyfrifol ac i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain.
- Rhaid i ddisgyblion fod yn brydlon ar gyfer cofrestru .
- Ni all unrhyw ddisgybl adael yr ysgol rhwng 8.50 a 3.15 heb ganiatad y Pennaeth.
- Dylai disgyblion wisgo gwisg ysgol yn ystod oriau ysgol.
- Dylai'r disgyblion gerdded o amgylch yr ysgol yn drefnus.
- Rhaid parchu eiddo,adeiladau a thir yr ysgol bob amser. Rhaid rhoi sbwriel yn biniau priodol.
- Gall unrhyw ddisgybl sydd yn difrodi eiddo'r ysgol orfod cyfrannu tuag at gostau trwsio/ailosod.
- Cynghorir disgyblion i beidio a dod ag eitemau gwerthfawr i'r ysgol.

**Trefniadaeth disgyblaeth.**

- Ar gychwyn blwyddyn ysgol mae'r athro dosbarth a disgyblion yn cyd-drafod a chytuno ar ddisgwyliadau o ymddygiad derbyniol.
- Ceir Rheolau Aur ymhob dosbarth.
- Defnyddir y drefn o oleuadau traffig i reoli ymddygiad o fewn yr ysgol.

Ysgol Bro Dyfrdwy

**Goleadau traffig**

**Gwyrdd**

- Bydd bob plentyn yn cychwyn diwrnod newydd ar y gwyrdd.

**Oren**

- Mae'r dau funud i feddwl yn gyfle i'r plentyn adlewyrchu ar ei ymddygiad a cymeryd cyfrifoldeb gan ddysgu o'i gamgymeriadau. Bwriad 2 funud I feddwl ydi bod yn plentyn yn gallu dewis camu allan o'r dosbarth a cael dau funud i feddwl cyn dychwelyd nol dosbarth wedi tawelu a newid meddylfryd I fod yn un gwyrdd.

## Coch


- Pan fydd disgybl yn cyrraedd dau funud i feddwl (golau oren) am y **trydydd** tro yn ystod y diwrnod, mi fyddan nhw'n mynd ar y golau coch (Colli amser aur prynhawn dydd Gwener)
- **Athro/ Athrawes dosbarth i ffonio rhieni bob tro mae plentyn ar y golau coch.**

## AMSER AUR

Mae'r plant yn dewis pa weithgareddau maen nhw eisiau eu gwneud yn ystod amser aur ar ddechrau'r wythnos. Mae'r staff yn hybu'r plant i ddewis amrywiaeth o weithgareddau gwahanol- lliwio, gemau bwrdd, pel droed, chwarae cuddio ac ati.

Os oes plentyn ar y golau coch tridiau mewn wythnos, rhaid i'r disgybl esbonio beth sydd wedi digwydd i'r pennaeth.

Os ydy plentyn yn mynd ar y golau coch tri diwrnod yn olynol, rhaid rhoi gweithdrefnau cefnogi yn ei le.



**Cosbau'r Pennaeth.**

Ar achlysuron prin caiff disgybl ei anfon at y Pennaeth i dderbyn cosb.

- Rhybudd llym iawn.
- Hysbsu'r rhieni.
- Galw rhieni i'r ysgol.
- Eithrio o freintiau am gyfnod penodedig.
- Eithrio o amser chwarae am gyfnod penodedig.
- Eithrio o'r ysgol am gyfnod penodedig.
- Eithrio parhaol.

**Perchnogaeth y polisi.**

Ystyrir bod y Polisi yn ddogfen fyw.

Fel y cyfryw caiff ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd.

Bydd y cyfrifoldeb terfynol am ei gyflwyno a'i weithredu gan y llywodraethwyr a'r pennaeth.

Dim ond os bydd pawb yn ymrwymo i wneud iddynt weithio y daw stratagaethau rheoli ymddygiad yn bosibl. Rhaid i staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant gydweithio i feithrin yr egwyddorion sylfaenol hyn o ddinasyddiaeth a democratiaeth.

Ysgol Bro Dyfrdwy

ATODIAD 1


Rheolau Aur Ysgol Bro Dyfrdwy

Byddwch yn ffrind da.

Peidiwch â brifo neb!



Byddwch yn ffeind a helpwch eich gilydd.




Peidiwch â brifo teimladau eraill.

Chwaraewch yn hapus gyda'ch gilydd.

Peidiwch â difetha gemau plant eraill.

Cadwch yr ysgol ar dosbarthiadau yn daclus.

Peidiwch â thaflu sbwriel a phethau ar y llawr.

Gwrandewch ar oedolion.

Peidiwch â thorri ar draws.

Dwedwch y gwir.







Peidiwch â dweud celwydd.

Chwaraewch yn ddiogel.

Peidiwch â chwarae gemau peryglus.

Cerddwch o amgylch yr ysgol.

Peidiwch â rhedeg tu mewn i'r ysgol.

Gwrandewch wrth deithio mewn tacsi.

Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr tacsi.

